Datganiad Cyflogadwyedd

Caiff Prifysgol Caerdydd ei hadnabod fel un o brifysgolion addysgu ac ymchwil mwyaf blaenllaw Prydain. Mae myfyrwyr yn elwa ar amgylchedd astudio ysgogol, addysgu wedi'i arwain gan ymchwil a rhyngweithio ag academyddion yn gweithio i ddatblygu gwybodaeth yn eu maes.

Ymagwedd Caerdydd yw adeiladu'r sgiliau y bydd graddedigion eu hangen pan fyddant mewn swydd. Caiff ein myfyrwyr eu gwerthfawrogi am eu gallu academaidd, eu safon uchel, eu cymhelliant, eu gweithgareddau allgyrsiol a'u dyfeisgarwch. Mae bron i 94% o'r garfan o raddedigion o 2009 yn cael eu cyflogi, yn ymgymryd ag astudio pellach neu'n cymryd amser allan chwe mis ar ôl graddio.

Mae cyflogadwyedd wedi'i ymgorffori ym mhrofiad y myfyrwyr ac mae myfyrwyr yn dewis Prifysgol Caerdydd i wella eu cyfleoedd am swydd a'u rhagolygon o ran cyflog. Mewn maes cyflogaeth cystadleuol, caiff myfyrwyr Caerdydd eu cefnogi i sicrhau'r swydd o'u dewis trwy:

- Wasanaeth Gyrfaoedd dynodedig a phroffesiynol sy'n cynnig gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i bob myfyriwr.

- Mynediad i Raglen Sgiliau Rheoli Gyrfa a gyflwynir yn ein Hysgolion academaidd i helpu myfyrwyr i gysylltu'r sgiliau y maent wedi'u hennill yn y Brifysgol â chyflogwyr – mae dros 5000 o fyfyrwyr yn mynychu'r rhaglen hon bob blwyddyn.

- Partneriaeth ragweithiol rhwng y Brifysgol, y Gwasanaeth Gyrfaoedd, Undeb y Myfyrwyr, cyflogwyr, darparwyr lleoliad a'r myfyrwyr eu hunain i wella sgiliau cyflogadwyedd a menter myfyrwyr.

- Cymorth gan ein Huned Menter Myfyrwyr ar gyfer myfyrwyr sy'n ystyried sefydlu eu busnes eu hunain neu ddatblygu eu sgiliau entrepreneuraidd.

- Cyfleoedd profiad gwaith â thâl a heb dâl fel rhan o raglen flaenllaw GO Wales, a'r cyfle i gwblhau Dyfarniad Datblygiad Proffesiynol City & Guilds i gydnabod eu datblygiad sgiliau yn ffurfiol.

- Perthynas ardderchog gyda phrif gyflogwyr yn y DU a chyflogwyr lleol sy'n mynychu ffeiriau cyflogwyr Caerdydd ac yn targedu ein graddedigion.

- Rheolwr profiad gwaith dynodedig, digwyddiadau sioeau teithio, ffair profiad gwaith, gweithdai a sesiynau ymgynghorol 1:1.

- Cysylltiadau uniongyrchol rhwng Ysgolion academaidd y Brifysgol ac arweinwyr diwydiant, y mae llawer ohonynt yn rhoi darlithoedd ac yn gweithredu ar baneli ymgynghorol y cwricwlwm.

- Cynlluniau gradd dethol gyda blwyddyn hyfforddiant genedlaethol a chynlluniau eraill sy'n cynnig cyfleoedd eraill i ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd craidd.

- Y cyfle i gyfarfod gyda chyflogwyr mewn cyflwyniadau a sesiynau sgiliau arbenigol lle gall myfyrwyr sefydlu cysylltiad a allai arwain at gynnig swydd.

- Gwasanaeth wedi'i deilwra ar gyfer myfyrwyr Rhyngwladol ac Ymgynghorydd Gyrfaoedd dynodedig ar gyfer Myfyrwyr Rhyngwladol.

- Cymorth gan Undeb y Myfyrwyr trwy ei Uned Datblygu Myfyrwyr a Siop Swyddi Staff y Brifysgol sy'n cynnig cyflogaeth achlysurol yn y Brifysgol a'r ardal gyfagos.

Nid yw cymorth gyrfaoedd ym Mhrifysgol Caerdydd yn dod i ben wrth i fyfyrwyr raddio. Mae cymorth yn parhau i fod ar gael gan y Gwasanaeth Gyrfaoedd, yn bersonol neu o bell, cyhyd ag y bydd ei angen trwy ein Canolfan Cyngor ar Gyflogaeth i Raddedigion, wnaeth helpu bron i 200 o fyfyrwyr a oedd wedi graddio yn y gorffennol i gael swydd newydd yn 2009/10.

Mae ein hystadegau cyflogaeth yn siarad drostynt eu hunain ac mae Prifysgol Caerdydd wedi'i rhestru'n flynyddol yn yr ugain prifysgol uchaf wedi'u targedu gan y 100 o Recriwtwyr Graddedigion Uchaf *The Times*. I gael mwy o wybodaeth am y Gwasanaeth Gyrfaoedd a'r cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr, trowch at: www.caerdydd.ac.uk/carsv

-DIWEDD-